

CARTREFI CYNNES, DYFODOL IACH



Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos bod cartrefi cynnes yn lleihau'r angen am wasanaethau gofal iechyd sylfaenol fel apwyntiadau meddyg teulu, gwasanaethau y tu allan i oriau a phresgripsiynau.

Mae Cartrefi Cynnes, Dyfodol Iach yn rhaglen genedlaethol sy'n cysylltu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol â chyngor ynni a gwasanaethau cymorth arbenigol eraill trwy bartneriaid cyflawni, gan gynnwys Cymru Gyntes.

Mae byw mewn cartref oer yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol ar iechyd a lles, megis:

- Problemau anadlol – asthma, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD)
- Problemau cardiofasgwlaidd – pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon a thrawiadau ar y galon
- Risg uwch o strôc
- Risg uwch o hypothermia
- Problemau iechyd meddwl – gorbryder, straen, iselder, gorlethu
- Marwolaethau ychwanegol y gaeaf

Mae pobl sydd â chyflyrau iechyd neu anabledd presennol mewn perygl arbennig ond maent hefyd yn fwy tebygol o ddogni (ration) eu gwres.

Mae Cartrefi Cynnes, Dyfodol Iach eisoes wedi helpu 50% o'r rhai a gefnogwyd i roi'r gorau i gyfyngu ar eu gwresogi.

Os oes gan eich claf/cleient gyflwr iechyd neu anabledd ac yn ei chael hi'n anodd cynhesu ei gartref, gall Cymru Gyntes weithio gyda nhw i gytuno ar gynllun gweithredu holistaidd pwrpasol a rhoi cymorth gyda:

- Chyngor ar effeithlonrwydd ynni
- Cymorth i gael mynediad at gynlluniau ar gyfer mesurau gwresogi ac inswleiddio
- Cymorth gyda biliau cyfleustodau a dyled tanwydd
- Gwasanaethu boeleri nwy
- Cymorth mewn argyfwng
- Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth
- Presgripsiynu Cymdeithasol
- Ymwybyddiaeth o Garbon Monocsid
- Gwiriadau hawl i fudd-daliadau

I gael mynediad at ein cymorth sydd wedi'i ariannu'n llawn, rhowch atgyfeiriad yn unrhyw un o'r ffordd canlynol:



www.warmwales.org.uk



0800 091 1786



Drwy eich doler Elemental
(os yn berthnasol)



Neu sganiwch
y cod hwn ar
gyfer ein
ffurflen
atgyfeirio

Lle bo modd, nodwch yn eich atgyfeiriad ba asiantaeth rydych chi'n atgyfeirio ohoni.